# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 10 Tachwedd 2015

Amser: 08.30 - 08.44

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)<br>Paul Davies<br>Jane Hutt<br>Elin Jones<br>Aled Roberts |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Peter Greening, Llywodraeth Cymru<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth |

# 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i’w cyhoeddi.

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai pob pleidlais mewn perthynas â Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Nododd y Rheolwyr Busnes y bydd y pleidleisio ar bob eitem arall o fusnes dydd Mawrth yn cael ei gynnal cyn i drafodion Cyfnod 3 ddechrau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gwneud datganiad am Gyfarfodydd y Diwydiant Dur ddydd Mercher.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu’r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 2 Rhagfyr 2015 –**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

## 4 Amserlen y Cynulliad

### 4.1 Dyddiadau toriadau'r Cynulliad 2015-16

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar ddyddiadau toriad hanner tymor y Gwanwyn a dyddiadau toriad y Pasg ar gyfer 2016 ond y byddent yn adolygu dyddiadau toriad y Pasg pe bai'n dod yn amlwg y bydd angen mwy o ddiwrnodau eistedd ar ddiwedd y Cynulliad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes mai'r opsiwn dewisol pe bai angen mwy o ddiwrnodau eistedd fyddai eistedd yn ystod yr wythnos 21-24 Mawrth, ond y byddai eistedd hyd at y diddymiad hefyd yn opsiwn.

## Unrhyw Fater Arall

*Bil Cymru drafft*

Soniodd Elin Jones am ystyriaeth y Cynulliad o Fil Cymru Drafft, a gofynnodd y Rheolwyr Busnes i'r Ysgrifenyddiaeth gyflwyno papur ar opsiynau ar gyfer trafod adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Fil Cymru Drafft yn y Cyfarfod Llawn.

*Cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Busnes*

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes y bydd y cyfarfod ychwanegol i drafod y materion allweddol sy'n deillio o dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer adroddiad Etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes yn cael ei gynnal am 15.30 ddydd Llun 30 Tachwedd.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd y byddai yr holl eitemau arferol o fusnes hefyd yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwnnw, ac felly ni fyddai unrhyw gyfarfod yn slot arferol y Pwyllgor ar 1 Rhagfyr.